**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023 am 10.00 am.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol canlynol yn bresennol:-**

Y Cynghorydd B Harris (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd J Brencher

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Ms A Hayes, Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol
Mr N Kelland, Prif Lyfrgellydd
Ms A Friel, Swyddog Graddedig
Mr A Owen-Hicks, Cyngor Celfyddydau Cymru

**6 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan.

**7 Datgan Buddiant**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**8 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** Aelodau gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022.

**9 Darpariaeth Cerddoriaeth Ieuenctid**

Rhoddodd Reolwr y Celfyddydau a Diwydiannau Creadigol ddiweddariad manwl i'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol mewn perthynas â'r ddarpariaeth cerddoriaeth ieuenctid sy'n cael ei darparu gan y Gwasanaeth Celfyddydau.

Tynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at Adran 5 o'r adroddiad, sy'n amlinellu sawl prosiect ar gyfer pobl ifainc rhwng 8 a 25 oed, sy'n ceisio gwella'u hunan-barch a

datblygu cydnerthedd.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr gan dynnu sylw at fanteision gwerthfawr sydd wedi'u nodi megis hunan-barch, llesiant a chydnerthedd ymhlith pobl ifainc. Roedd y Cadeirydd wedi canmol y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifainc a'r cyfleoedd sydd ar gael i helpu pobl i ragori.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden yn gadarnhaol am yr wybodaeth a ddarparwyd gan nodi gwerth prosiectau o'r fath a rhaglenni sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifainc ymgysylltu ag eraill a dysgu sgiliau newydd. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet y bartneriaeth gydweithio rhwng y Gwasanaeth Celfyddydau a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod pobl ifainc yn dysgu sgiliau newydd a chyfleoedd gwaith, yn ogystal â magu hyder a chymryd rhan mewn arddangosfeydd proffesiynol.

Roedd Aelod arall wedi adleisio sylwadau blaenorol gan bwysleisio manteision y rhaglenni o ran iechyd a lles.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Ieuenctid a'r Gymraeg wedi canmol y mentrau ac roedd o'r farn bod modd gweld y manteision i bobl ifainc o ran cyflogaeth, iechyd a lles, ledled y Fwrdeistref Sirol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi siarad am y pwysau sydd ar bobl ifainc, ysgolion a theuluoedd o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac roedd o'r farn bod yr adroddiad yn enghraifft o arfer gorau y dylid ei rannu.

Roedd cynrychiolydd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi awgrymu bod yr adroddiad yn cael ei rannu â'r Rheolwr Portffolio newydd ar gyfer y Celfyddydau a Phobl Ifainc fel enghraifft o arfer gorau.

**PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol:

1. Trafod cynnwys yr adroddiad a chyflwyno sylwadau ar yr wybodaeth a ddarparwyd.

## 10 Prosiect Treftadaeth Diwygio Delweddau

Rhannodd y Prif Lyfrgellydd wybodaeth â'r Grŵp Llywio am brosiect 'Diwygio Delweddau', sy'n cael ei gefnogi gan grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i arwain gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Cafodd Aelodau wybod am gynnydd y prosiect, a roddodd gyfle i ailadeiladu capasiti yn Rhondda Cynon Taf a'r gymuned mewn perthynas â threftadaeth; a cheisio ymgysylltu ag ystod o bartneriaid ac unigolion ledled y Fwrdeistref.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr gan bwysleisio pwysigrwydd treftadaeth a'r angen i ddathlu ystod o bobl adnabyddus o RCT.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Ieuenctid a'r Gymraeg hefyd wedi nodi ei fod e'n gyffrous am y prosiect a chytunodd fod gan RCT hanes diwydiannol a chynddiwydiannol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi sôn bod archwilio hanes yn allweddol wrth sicrhau ymdeimlad o berthyn a chymuned ac roedd e'n falch o nodi bod sawl gwirfoddolwr wedi ymgysylltu â'r prosiect, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Roedd Aelod arall wedi siarad yn gadarnhaol am y Prosiect Treftadaeth gan awgrymu bod swyddogion yn ymgysylltu â churadur newydd Amgueddfa Pontypridd i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael ledled y Fwrdeistref.

**PENDERFYNODD** yr Aelodau**:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â'r prosiect, cynnydd a'r camau nesaf.

## 11 Aelodaeth y Grŵp

Rhannodd Reolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant fanylion am y newidiadau arfaethedig i Aelodaeth y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol, yn unol â blaenoriaethau Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2023.

Tynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at Adran 6 o'r adroddiad, cynigwyd bod:

- Aelod o Banel Dinasyddion y Fwrdeistref, Fforwm Ieuenctid RhCT a'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn yn cael eu gwahodd i ymuno â'r Grŵp Llywio, gan ystyried y ffordd y mae modd dod o i hyd i ragor o gynrychiolwyr o'r gymuned yn y dyfodol;
- Bydd gweithiwr proffesiynol allanol o'r celfyddydau yn cael ei recriwtio, yn dilyn ymddiswyddiad yr Aelod Cyfetholedig a oedd yn cyflawni'r rôl yma; a
- Bod Cadeirydd y panel hefyd yn dod yn Aelod o'r Grŵp Llywio a hynny'n dilyn y penderfyniad i sefydlu Panel Cymunedol yn y dyfodol.

Pwysleisiodd y swyddog fod trafodaethau am faterion aelodaeth yn y camau cynnar ar hyn o bryd a dydy'r Panel Cymunedol sydd wedi'i nodi uchod ddim wedi cael ei sefydlu hyd yn hyn.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Swyddog am y diweddariad gan nodi bod ymgysylltu â'r gymuned yn hollbwysig.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden wedi manteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Aelod Annibynnol, a oedd wedi ymddiswyddo o'i rôl yn ddiweddar gan nodi bod ei gyfraniad ef wedi annog rhyngweithio da a herio. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn cytuno gyda sylwadau'r Cadeirydd mewn perthynas ag ymgysylltu gan groesawu'r cyfle i glywed barn y gymuned er mwyn cwrdd ag anghenion lleol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Ieuenctid a'r Gymraeg wedi croesawu'r cynigion ond yn effro i'r ffaith bod modd i grwpiau mwy colli ffocws. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi sôn am bwysigrwydd ystyried priodoleddau, diddordebau ac arbenigedd unrhyw benodiadau pellach. Roedd y Swyddog wedi pwysleisio bod y cynigion yn y camau cynnar gan nodi sylwadau'r Aelod o'r Cabinet.

**PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio:

1. Cymeradwyo'r cynnig i newid aelodaeth y Grŵp Llywio; a
2. Bod Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a

Chyfathrebu yn rhoi diweddariad i'r Arweinydd ynglŷn â'r newid i aelodaeth er mwyn i'r Arweinydd gymeradwyo'r newid.

**12 Materion Brys**

Roedd y Cadeirydd wedi siarad am achlysur Ogof Siôn Corn a'r pantomeim a gafodd ei gynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr, gan ddiolch i bawb oedd ynghlwm â'r achlysuron gwych dros y Nadolig.

Roedd Aelod arall wedi adleisio sylwadau'r Cadeirydd gan siarad yn gadarnhaol am ei phrofiad hi yn y pantomeim. Roedd yr Aelod wedi sôn bod y pantomeim ymhlith y gorau mae hi erioed wedi'i weld.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am**

**Y Cynghorydd B Harris**
**Cadeirydd.**